# Adroddiad chwythu'r chwiban blynyddol 2021-22

Dull Ofcom o reoli datgeliadau chwythu'r chwiban allanol a chrynodeb o ddatgeliadau yn 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: 29 Medi 2022

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Cefndir 2

3. Datgeliadau chwythu'r chwiban 5

4. Casgliad 9

# 1. Trosolwg

## Cefndir

Ofcom yw rheoleiddiwr ac awdurdod cystadleuaeth diwydiannau cyfathrebiadau'r DU. Rydym yn rheoleiddio telathrebu llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alw, gwasanaethau post, platfformau rhannu fideos sydd wedi'u lleoli yn y DU a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio.

Rydym yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, ac mae ein dyletswyddau wedi'u nodi mewn statud, sy'n golygu ein bod yn atebol i Senedd y DU.[1]

Ein prif ddyletswydd yw 'hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol'.[2]

## Gair am yr adroddiad hwn

Dyma adroddiad annibynnol cyntaf Ofcom ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed i Ofcom fel y 'Person Rhagnodedig' perthnasol. Mae Ofcom wedi cael ei ddynodi'n 'Berson Rhagnodedig' ar gyfer datgeliadau chwythu'r chwiban ar faterion sy'n ymwneud â:

- darpariaeth gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig a defnyddio'r sbectrwm electromagnetig;
- darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio;
- rheolaeth a pherchnogaeth y cyfryngau; a
- chystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebu

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban rydym wedi'u cael ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Mae Ofcom wedi adrodd yn flynyddol ar nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban ers dechrau blwyddyn ariannol 2014-15 yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom[3].

[1] Mae Ofcom yn gweithredu o dan nifer o Ddeddfau Seneddol gan gynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

[2] Adran 3(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003.

[3] Nid yw Ofcom wedi rhoi gwybod am unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban tan y flwyddyn ariannol hon, 2021-22.

# 2. Cefndir

## Rhwymedigaethau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ("PIDA")[4] yn darparu gwarchodaeth gyfreithiol i weithwyr sy'n datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwr. Mae Ofcom yn 'Berson Rhagnodedig' o dan y Ddeddf, sy'n golygu y gall unigolion elwa o warchodaeth y Ddeddf drwy gyflwyno eu datgeliad chwythu'r chwiban i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â (a) darparu gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig a defnyddio'r sbectrwm electromagnetig; (b) darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio; (c) perchnogaeth a rheolaeth y cyfryngau; a (d) cystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebiadau. Gall unigolion hefyd elwa o warchodaeth y Ddeddf drwy gyflwyno eu datgeliad chwythu'r chwiban i Ofcom ar faterion eraill sydd o fewn cylch gwaith Ofcom ee gwasanaethau post a phlatfformau rhannu fideos. Rydym yn trafod y darpariaethau datgelu ehangach o dan y Ddeddf yn fwy manwl ar dudalen 5. Nid oes gan Ofcom unrhyw rôl o ran penderfynu a yw gwarchodaeth y Ddeddf yn berthnasol (byddai hyn yn fater i Dribiwnlys Cyflogaeth), ac nid yw'n ymwneud ag agweddau cyflogaeth datgeliadau chwythu'r chwiban.

Mae gan Ofcom nifer o rwymedigaethau fel Person Rhagnodedig[5], gan gynnwys rhwymedigaeth adrodd flynyddol, a'r gofyniad i weithredu mewn modd sy'n cadw cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yr unigolyn sy'n gwneud y datgeliad. Yn aml, bydd ar chwythwr chwiban eisiau gwarchod ei enw oherwydd ei fod yn teimlo'n fregus wrth godi'r mater gyda'i gyflogwr; neu efallai ei fod eisoes wedi codi'r mater yn fewnol a'i fod yn teimlo nad yw wedi cael ei drin yn briodol.

## Gair am yr wybodaeth a dderbyniwn

Mae gwybodaeth am chwythu'r chwiban ar gael ar dudalen we Ofcom am chwythu'r chwiban[6] ac mae'n bosibl i chwythwyr chwiban ddatgelu i Ofcom drwy ddefnyddio ffurflen we ar-lein[7], drwy anfon neges i whistleblower@ofcom.org.uk neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

Consumer Contact Team (Whistleblowing)
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein prosesau, ac yn bwriadu caniatáu i chwythwyr chwiban roi gwybod am broblemau drwy ffurflen ar-lein newydd ar wefan Ofcom. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r broses newydd hon tua diwedd 2022.

---

[4] Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (legislation.gov.uk)
[5] Person Rhagnodedig - yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – Atodlen 1 i Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014/2418
[6] Gweithdrefn chwythu'r chwiban Ofcom ar gyfer datgelu
[7] Gweithdrefn chwythu'r chwiban Ofcom ar gyfer datgelu

Mae datgeliadau chwythu'r chwiban yn ein helpu i reoleiddio'r sectorau darlledu a chyfathrebiadau. Mae'r wybodaeth rydym yn ei derbyn yn gallu rhoi gwybodaeth werthfawr am y sefydliadau perthnasol a'r sectorau diwydiant rydym yn eu rheoleiddio. Gallai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau polisi yn y dyfodol a gallai arwain at ymchwiliad gorfodi.

Mae gennym amrywiol opsiynau o ran sut i ymateb i wybodaeth a ddarperir gan chwythwyr chwiban. Ar ôl cael datgeliad gan chwythwr chwiban, byddwn yn gwneud asesiad cychwynnol o a yw'r datgeliad yn codi pryderon ynghylch cydymffurfiad cwmni â'i rwymedigaethau rheoleiddiol neu gystadleuol fel y dylai Ofcom ymchwilio ymhellach, yn unol â'n Canllawiau Gorfodi[8].

Mae nifer o gamau/canlyniadau posibl. Gallwn:

- **ceisio casglu rhagor o wybodaeth** cyn dod i benderfyniad ynghylch a ddylid ymchwilio ai peidio. Gall hyn olygu cysylltu â'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n destun yr honiadau. Ni fyddem yn datgelu enw na manylion cyswllt y chwythwr chwiban heb ei ganiatâd.[9]
- **penderfynu agor ymchwiliad**. Byddem yn dilyn y gweithdrefnau arferol a nodir yn ein Canllawiau Gorfodi, sy'n cynnwys cyhoeddi hysbysiad agoriadol ar ein gwefan. Efallai byddwn yn penderfynu agor ymchwiliad pan fyddwn yn credu bod yr wybodaeth a ddarperir yn codi pryderon credadwy ynghylch cydymffurfiad cwmni â'i rwymedigaethau rheoleiddiol neu gystadleuaeth.
- **mynd i'r afael â'r honiadau heb agor ymchwiliad ffurfiol**. Gall hyn olygu ysgrifennu at y sefydliad neu'r unigolyn i'w atgoffa o unrhyw ofynion rheoleiddio perthnasol. Mewn achosion eraill, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan chwythwr chwiban i gefnogi prosiectau eraill a gweithgareddau monitro.
- **trosglwyddo gwybodaeth y chwythwr chwiban i reoleiddiwr mwy priodol,** er enghraifft os yw'r ymddygiad yn ymwneud â sector nad yw Ofcom yn ei reoleiddio.
- **penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach**. Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod Ofcom yn ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law. Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio ai peidio, rydym yn ystyried pa mor dda rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i warchod budd y cyhoedd.

Nid ydym yn cynnig cyngor i chwythwyr chwiban ynghylch pa warchodaeth a gynigir iddynt. Er na allwn gynnig cyngor cyfreithiol, mae ffynonellau cymorth eraill, fel:

- Protect, yr elusen chwythu'r chwiban
- ACAS
- Cyngor ar Bopeth
- Undeb llafur y chwythwr chwiban, os yw'n aelod

Mae'r darpariaethau chwythu'r chwiban o dan y Ddeddf yn gwarchod unrhyw 'weithiwr' sy'n gwneud 'datgeliad gwarchodedig' o wybodaeth, rhag cael ei ddiswyddo neu ei gosbi gan ei gyflogwr oherwydd y datgeliad. Gellir gorfodi hyn drwy Dribiwnlys Cyflogaeth. Ni all Ofcom benderfynu a yw datgeliad yn gymwys i gael ei warchod nac ymyrryd mewn cysylltiadau cyflogaeth. Cynghorir chwythwyr chwiban i ofyn am gyngor gan un o'r cyrff a nodir uchod os oes ganddynt unrhyw

[8] Canllawiau Gorfodi Ofcom.

[9] Ni allwn warantu anhysbysrwydd, oherwydd ei bod hi'n bosibl i gyflogwr adnabod chwythwr chwiban yn annibynnol.

bryderon penodol. Gall chwythwyr chwiban hefyd ofyn am gyngor cyfreithiol gan berson sydd â'r cymwysterau priodol, megis cyfreithiwr.

Byddwn yn trin unrhyw wybodaeth a roddir i ni mewn modd sensitif a chyfrifol. Byddwn yn cyfyngu gwybodaeth ynghylch pwy yw'r chwythwr chwiban i nifer fach iawn o bobl, ac ni fyddem yn datgelu'r wybodaeth honno oni bai fod rheidrwydd cyfreithiol arnom i wneud hynny, er enghraifft gan farnwr mewn llys barn. Ond hyd yn oed os gwnawn ein gorau glas i gelu pwy yw'r chwythwr chwiban, ni allwn warantu anhysbysrwydd, oherwydd ei bod hi'n bosibl i'r cyflogwr allu ei adnabod yn annibynnol.

# 3. Datgeliadau chwythu'r chwiban

**Crynodeb o'r 13 datgeliad a gawsom yn 2021-22:**

- 10 datgeliad chwythu'r chwiban
- Trosglwyddwyd un datgeliad i Berson Rhagnodedig arall
- Dau ddatgeliad ehangach

O'r 11 datgeliad chwythu'r chwiban:

- mae un yn dal i gael ei ymchwilio;
- cafodd 10 eu cau yn ystod 2021-22; ac
- ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau gorfodi o ganlyniad i ddatgeliad yn ystod 2021-22.

Cafodd y ddau ddatgeliad ehangach eu cau yn 2021-22.

## Mathau o ddatgeliadau chwythu'r chwiban

### Datgeliadau chwythu'r chwiban i Bersonau Rhagnodedig

Er mwyn gwarchod datgeliad i Berson Rhagnodedig, rhaid i'r gweithiwr sy'n datgelu gredu'r ddwy elfen isod yn rhesymol:

- Bod y camwedd yn dod o fewn cylch gwaith y Person Rhagnodedig dan sylw; a
- Bod yr wybodaeth a ddatgelir ac unrhyw honiad sydd ynddi yn wir i raddau helaeth.[10]

### Datgeliadau ehangach

Nid yw'r rhestr o faterion y mae Ofcom yn Berson Rhagnodedig ar eu cyfer yn cynnwys holl swyddogaethau rheoleiddio Ofcom. Er enghraifft, nid yw gwasanaethau post na phlatfformau rhannu fideos yn dod o dan gwmpas y dynodiad Person Rhagnodedig ar gyfer Ofcom. Caiff Ofcom barhau i dderbyn cwynion chwythu'r chwiban mewn perthynas â materion o'r fath o dan ddarpariaethau datgelu ehangach y Ddeddf.

Er mwyn i ddatgeliad ehangach gael ei warchod, bydd angen i'r gweithiwr sy'n datgelu hefyd ddangos (ymysg pethau eraill) ei fod wedi datgelu'r un wybodaeth i raddau helaeth i'w gyflogwr neu i Berson Rhagnodedig o'r blaen, neu ei fod yn credu'n rhesymol y byddai fel arall wedi dioddef niwed neu y byddai tystiolaeth berthnasol wedi cael ei dinistrio.[11]

Er bod y meini prawf asesu y mae'n rhaid i Ofcom eu dilyn i dderbyn datgeliad ehangach yn wahanol, mae'r warchodaeth a gynigir gan Ofcom o ran cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yr un fath â datgeliad chwythu'r chwiban a wneir i Ofcom yn ei rôl fel Person Rhagnodedig. Hefyd, mae'r warchodaeth o

[10] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23/section/1
[11] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23/section/1

dan y Ddeddf i'r chwythwr chwiban yr un fath ar gyfer datgeliad ehangach ag ar gyfer datgeliad i Berson Rhagnodedig.[12]

# Nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban

Cafodd Ofcom 13 achos o chwythu'r chwiban yn 2021-22:

- Roedd 10 datgeliad chwythu'r chwiban yn dod o fewn cwmpas Ofcom fel Person Rhagnodedig;
- roedd dau ddatgeliad ehangach y tu allan i gwmpas uniongyrchol Ofcom fel Person Rhagnodedig; a
- throsglwyddwyd un datgeliad chwythu'r chwiban i Berson Rhagnodedig arall.

## Datgeliadau gwarchodedig

### Datgeliadau gwarchodedig – y camau a gymerwyd

Yn 2021-22, fe wnaethom dderbyn a chau naw datgeliad chwythu'r chwiban. Ar ôl asesiad cychwynnol, caewyd pob un o'r achosion hyn heb fod angen ymgysylltu â chyflogwr y chwythwr chwiban. Roedd un datgeliad chwythu'r chwiban yn dal i gael ei asesu ar 30 Ebrill 2022.

| Achos datgeliad chwythu'r chwiban | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau chwythu'r chwiban yn ôl y camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| **Achosion agored** | Ymholiadau parhaus | 1 |
| | Ymchwiliad Gorfodi Parhaus | 0 |
| **Achosion ar gau** | Dim Cyswllt â'r Cyflogwr - Dim Angen Gweithredu | 9 |
| | Cyswllt Uniongyrchol â'r Cyflogwr – Dim Camau Pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol | 0 |
| | Cyswllt Uniongyrchol â'r Cyflogwr – Wedi Cymryd Camau Pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol ond dim camau gorfodi | 0 |
| | Ymchwiliad Gorfodi – Heb ganfod achos o dorri rheoliadau | 0 |

[12] Er mwyn cael eu trin fel 'datgeliad gwarchodedig' o dan y Ddeddf, bydd angen i ddatgeliadau chwythu'r chwiban (pa un a ydynt yn cael eu gwneud i Berson Rhagnodedig ac o dan ddarpariaethau datgeliadau ehangach y Ddeddf), fod yn gymwys i gael eu gwarchod. Mae datgeliadau cymwys yn cael eu diffinio yn adran 43B o'r Ddeddf (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23/section/1).

| Achos datgeliad chwythu'r chwiban | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau chwythu'r chwiban yn ôl y camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| | Ymchwiliad Gorfodi – Wedi canfod achosi o dorri rheoliadau | 0 |
| **CYFANSWM** | | 10 |

### Datgeliadau gwarchodedig yn ôl sector diwydiant

O'r deg datgeliad chwythu'r chwiban gwarchodedig a gawsom yn ystod 2021-22, roedd naw wedi deillio o'r sector telathrebu ac un o'r sector darlledu.

| | Datgeliadau chwythu'r chwiban yn ôl sector |
|---|---|
| **Darlledu** | 1 |
| **Sbectrwm** | 0 |
| **Telathrebu** | 9 |
| **CYFANSWM** | 10 |

## Nifer y datgeliadau ehangach

Cawsom ddau ddatgeliad chwythu'r chwiban ehangach yn ystod 2021-22, roedd un yn ymwneud â'r sector post ac roedd un yn ymwneud â phlatfformau rhannu fideos.

### Datgeliadau ehangach – y camau a gymerwyd

Yn 2021-22, fe wnaethom dderbyn a chau dau ddatgeliad ehangach. Ar ôl asesiad cychwynnol, caewyd un achos heb fod angen ymgysylltu â chyflogwr y chwythwr chwiban a chaewyd yr achos arall ar ôl ymgysylltu â chyflogwr y chwythwr chwiban.

| Achos datgelu ehangach | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau ehangach yn ôl y camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| **Achosion agored** | Ymholiadau parhaus | 0 |

| Achos datgelu ehangach | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau ehangach yn ôl y camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| | Ymchwiliad Gorfodi Parhaus | 0 |
| **Achosion ar gau** | Dim Cyswllt â'r Cyflogwr - Dim Angen Gweithredu | 1 |
| | Cyswllt Uniongyrchol â'r Cyflogwr – Dim Camau Pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol | 1 |
| | Cyswllt Uniongyrchol â'r Cyflogwr – Wedi Cymryd Camau Pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol, ond dim camau gorfodi | 0 |
| | Ymchwiliad Gorfodi – Heb ganfod achos o dorri rheoliadau | 0 |
| | Ymchwiliad Gorfodi – Wedi canfod achosi o dorri rheoliadau | 0 |
| **CYFANSWM** | | 2 |

### Datgeliadau ehangach yn ôl sector diwydiant

Cafwyd un datgeliad ehangach o'r sector post a'r llall o'r sector platfformau rhannu fideos.

| | Datgeliadau ehangach yn ôl sector |
|---|---|
| **Gwasanaethau post** | 1 |
| **Platfformau rhannu fideos** | 1 |
| **CYFANSWM** | **2** |

## Nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a drosglwyddwyd i Berson Rhagnodedig arall

Cawsom un datgeliad chwythu'r chwiban yn ystod 2021-22 a welsom a oedd yn perthyn i'r diwydiant gwasanaethau ariannol. Anfonwyd y datgeliad hwn ymlaen at yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.

# 4. Casgliad

Mae datgeliadau chwythu'r chwiban yn gallu bod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth sy'n cefnogi ein prif ddyletswydd sef "hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol".

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod, ym mlwyddyn ariannol 2021-22, wedi cynnal nifer o asesiadau ar ddatgeliadau chwythwyr chwiban a datgeliadau ehangach. Ni wnaethom agor ymchwiliad gorfodi na chymryd camau penodol yn erbyn cyflogwr. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd i wneud penderfyniadau polisi ar sail gwybodaeth, a, lle bo'n briodol, byddwn yn cymryd camau gorfodi yn y dyfodol.